

TAFLEN NEWYDDION CYMUNEDOL LLANDYFAELOG COMMUNITY NEWSLETTER



Llun / Photo Andrea Bennett



Llun / Photo Rob Ashcroft (Cloch Eglwys Llandyfaelog Church Bell)

CYFLWYNIAD / INTRODUCTION

Croeso i Rifyn Gaeaf Daflen Newyddion Chwarterol Cymunedol Llandyfaelog.

Cyhoeddir y Daflen Newyddion trwy'r Wefan Gymunedol www.llandyfaelog.org.uk, ond os hoffech gael eich cynnwys ar y rhestr dosbarthiad trwy e-bost, cysylltwch ag Arfon Davies Clerc Cyngor Cymuned Llandyfaelog Llandyfaelog@btinternet.com

Er eich gwybodaeth mae'r rhannau Gymraeg o'r Cylchlythyr mewn coch â'r Saesneg yn glas.

Bydd y Clerc yn hapus i dderbyn eich sylwadau neu erthyglau ar gyfer y Rhifyn nesaf.

Welcome to the Winter Edition of the Llandyfaelog Quarterly Community Newsletter.

The Newsletter is published on the Community Website www.llandyfaelog.org.uk, however if you would like to be included on the email distribution list, please contact Arfon Davies, Llandyfaelog Community Council Clerk Llandyfaelog@btinternet.com

For ease of reference the parts of the Newsletter in Welsh are in red with the English in Blue.

The Clerk will be happy to receive your comments or articles for the next Edition.

Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor	Council Meeting Dates
4 Ionawr 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog	4 January 7.30pm Llandyfaelog Hall
1 Chwefror 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog	1 February 7.30pm, Llandyfaelog Hall
7 Mawrth 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog	7 March 7.30pm, Llandyfaelog Hall

Gellir gweld cofnodion ac agenda cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn [Cyfarfod, Agenda a Chofnodion – Llandyfaelog Community Council – Cym \(visionict.com\)](#)

Community Council minutes and meeting agenda can be found at [Meetings, Agendas and Minutes – Llandyfaelog Community Council – Eng](#)

Neuadd Cymunedol Llandyfaelog Community Hall

Clwb 100 2023 / 2023 100 Club

Clwb 100 2023 / 2023 100 Club

TACHWEDD 2023 / NOVEMBER 2023

1 st	143	Wendy Temple	£40
2 nd	71	Clive Hugh	£30
3 rd	55	Mary Jones	£20

NADOLIG 2023 / CHRISTMAS 2023

1 st	104	Rob Ashcroft	£100
2 nd	87	Idris Owen	£75
3 rd	133	Lynwen Anderson	£50
4 th	33	Seren Phillips	£30
5 th	134	Wyn Davies	£20

Ŵyl Nadolig Llandyfaelog Llandyfaelog Christmas Festival

Cafwyd noson hwylus iawn gyda chwmni Siôn Corn ar ddydd Llun 4ydd Rhagfyr yn Ŵyl Nadolig Llandyfaelog. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog gyda gweithgareddau a stondinau yn y Neuadd. Perfformiodd Dilys Rees, Glanmorlais y Seremoni Goleuo'r Goeden Nadolig.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Fand Croesyceiliog (yn codi arian dros banc bwyd Caerfyrddin) a Phlant y Cymuned (o dan goruchwyliaeth Helen Davies a Carys Thomas) am yr adloniant a'r gerddoriaeth. Diolch hefyd i Mr a Mrs Elf, i'r holl gynorthwyrwr am roi'r goeden yn ei lle eto ynghyd â'u cefnogaeth gyda'r trefniadau ar gyfer Grotto Sion Corn a'r stondinau.

A very entertaining evening was spent with Father Christmas on Monday 4th December at the Llandyfaelog Christmas Festival. The event was held at Llandyfaelog Community Hall with activities and stalls in the Hall. Dilys Rees, Glanmorlais performed the Christmas Tree Lighting Ceremony.

The Committee would like to thank Band Croesyceiliog (raising funds for Carmarthenshire Foodbank) and the Children of the Community (under the supervision of Helen Davies and Carys Thomas) for the entertainment and music. Thanks also to Mr and Mrs Elf and all the helpers for putting the tree in place again along with their support with the arrangements for the Santa's Grotto and stalls.





Rhai o'r Stondinau / Some of the Stalls



Lluniau / Photos Andrea Bennett

Cefnogwyd rhoddion Siôn Corn i'r plant gan Gadeirydd y Neuadd, Carys Thomas. Yn dilyn y digwyddiad rhoddwyd gweddill yr anrhegion i apêl Blwch Tegannau Cyngor Sir Caerfyrddin. Ymwelodd Carys â'r apêl i ddosbarthu'r rhodd ynghyd â Chadeirydd y Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Shan Rees a gyflwynodd rodd o £100 i'r apêl gan Gyngor Cymuned Llandyfaelog..

Father Christmas' gifts to the children were supported by Hall Chair, Carys Thomas. Following the event the remaining presents were donated to the Carmarthenshire County Council Toybox appeal. Carys visited the appeal to deliver the donation along with Community Council Chair, Cllr Shan Rees who presented a donation of £100 to the appeal from Llandyfaelog Community Council.





LLONGYFARCHIADAU / CONGRATULATIONS

Llongyfarchiadau i aelodau Clwb Bowlio Mat Byr Llandyfaelog, Andrea Bennett, Janet Davies, Llinos Jones, Shan Rees a Caroline Stiles a ddewiswyd i gynrychioli Tîm Cymru ym Melton Mowbray ar gyfer Pencampwriaethau Merched Ynysoedd Prydain ym mis Hydref.

Congratulations are noted to the members of Llandyfaelog Short Mat Bowls Club, Andrea Bennett, Janet Davies, Llinos Jones, Shan Rees and Caroline Stiles who were chosen to represent the Wales Team in Melton Mowbray for the Ladies British Isles Championships in October.



Lluniau Lleol / Local Photography

Mae'r Ffotograffydd Lleol, Rob Ashcroft wedi creu albwm Flickr gyda lluniau o'r ardal. Gellir gweld hwn trwy'r ddolen ganlynol

Local Photographer, Rob Ashcroft has created a Flickr album with photos of the area. This can be accessed via the following link

<https://flic.kr/s/aHBqjB5auz>

Dilys Rees

Ar 6ed Hydref, dathlodd Dilys Rees o Glanmorlais ei phenblwydd yn 100 oed. Ymwelodd Cadeirydd y Cyngor Cymuned, y Cyng Shan Rees a'r Cynghorwyr Sir Meinir James a Tyssul Evans â Dilys i'w llongyfarch ar ei charreg filltir arwyddocaol.

On the 6th October, Dilys Rees of Glanmorlais celebrated her 100th Birthday. Community Council Chair, Cllr Shan Rees and County Councillors Meinir James and Tyssul Evans visited Dilys to congratulate her on her significant milestone.



Llun / Photo: Cyng Meinir James

ORIEL CI MELYN
PRESENTS

SISTER BODHI

Saturday 16 December 2023
Llandyfaelog Community Hall at 8.00pm
Doors open at 7.30pm
Tickets £10

Licensed bar
Contact Shan Rees on 07971345245



Sponsored and promoted
by Oriel Ci Melyn.



All proceeds to go to St. Maelog's
Church Bells' Restoration Fund.

Gwasanaeth Plygain, Capel Penygraig, 10/12/23

Cynhaliwyd Gwasanaeth Plygain yng Nghapel, Penygraig ar ddydd Sul Rhagfyr 10fed. Mae rhai lluniau o'r Gwasanaeth isod.

A Plygain Service was held at Capel, Penygraig on Sunday 10th December. Some photos from the Service are below.





Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog 2023

Cynhaliwyd eisteddfod lwyddiannus iawn yn Neuadd Llandyfaelog ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 2il. Y beirniaid eleni oedd :- Cerdd – Joy Cornock Thomas, Tal-y-llychau; Llefaru a Llên – Y Prifardd Aneirin Karadog, Pontyberem; Celf – Gareth Morgan, Cwmffrwd.

Bu Geraint Rees, Idole a Jonathan Morgan, Y Tymbl yn cyfeilio ar gyfer y cystadlaethau lleol gyda Jonathan ar gyfer y cystadlaethau agored.

Llywydd prynhawn yr eisteddfod eleni oedd Menna James, Cwmffrwd a'r llywyddion ar gyfer y nos oedd Owen a Lynda Jones, Llygad yr Efail, y tri ohonynt yn gefnogol i'w bro ac i'r Eisteddfod dros nifer fawr iawn o flynyddoedd.

Enillwyd Cadair yr Eisteddfod gan Eluned Mai Giles, Cae'r Seiri, Caerfyrddin gyda cherdd ar y testun "Deffro". Yr oedd y gadair hardd yn rhoddedig gan Eirlys Thomas, Gellionnen a theulu Gelli-ddu er cof am Bryan. Enillwyd Tlws yr Ifanc gan Tesni Peers, Rhosllannerchrugog, Wreccsam a chyflwynwyd y fedal a'r wobwr ariannol gan Huw John, Peniel.

Cyflwynwyd Cwpan Coffa John a Nan Anderson, Trelimsey i Glesni Roberts, Ysgol Gwenllian am fod y cystadleuydd lleol o dan 11 oed sydd yn dangos yr addewid fwyaf. Cyflwynwyd Ysgoloriaethau Dr. Ron a Mrs. Betty Rees i'r cystadleuydd gorau yn lleol o dan 16 oed i Gwenllian Jones, Ysgol Gwenllian (cerddoriaeth) ac i Tomos Morgan, Ysgol Bro Myrddin (llefaru). Cyflwynwyd cwpan her i'r ysgol leol uchaf ei marciau i Ysgol Llangynnwr.

Mae aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi pob cyfraniad a chefnogaeth tuag at lwyddiant yr eisteddfod. Dyma restr o'r buddugol ymhob cystadleuaeth.

CERDD (lleol)

Unawd Bl. 1 a 2 – 1. Glesni Roberts, 2. Greta Wyn, 3. Cydradd, Hafanna Bennett Havard ac Anna Williams; Unawd Bl. 3 a 4 – 1. Gwenllian Jones, 2. Alys Evans, 3. Alaw Evans; Unawd Bl. 5 a 6 – 1. Beca Morris, 2. Ioan Jones, 3. Isabel Hughes; Unawd offeryn cerdd ysgolion cynradd – 1. Cadi Morgans, 2. Beca Morris, 3. Gruff Williams; Parti unsain dan 16 – 1. Ysgol Gwenllian (Hŷn), 2. Ysgol Llangynnwr (Hŷn), 3. Ysgol Llangynnwr (Iau); Deuawd Bl. 6 ac iau – 1. Enfys ac Isabel, 2. Aneirin a Greta; Unawd Bl. 7-11 – 1. Elan Jones; Unawd offeryn cerdd Bl. 7-11 – 1. Tomos Morgan.

LLEFARU (lleol)

Llefaru Bl. 1 a 2 – 1. Glesni Roberts, 2. Ilan-Rhun Phillips, 3. Cydradd, Hafanna Bennett Havard a Ela Millard; Llefaru Bl. 3 a 4 – 1. Alys Evans, 2. Tomos Wyn Cooper, 3. Cadi Morgan; Llefaru Bl. 5 a 6 – 1. Gwenno Roberts, 2. Caleb Jones, 3. Ioan Jones. Llefaru Bl. 7-11 – 1. Tomos Morgan.

CELF A THECHNOLEG (lleol)

Celf dan 5 oed – 1. William Davies, Ysgol Llangynnwr, 2. Gracie Davies, Ysgol Llangynnwr, 3. Clara McGee, Ysgol y Fro. Celf Blwyddyn 1 a 2 – 1. Ilan-Rhun Phillips, Ysgol Llangynnwr, 2. Finn McGee, Ysgol y Fro, 3. Zieorah Onoh, Ysgol Mynydd-y-garreg. Celf Blwyddyn 3 a 4 – 1. Oliver Rogan, Ysgol Glanyfferi, 2. Arya Lloyd, Ysgol Llangynnwr, 3. Xavier Thomas, Ysgol Glanyfferi. Celf Blwyddyn 5 a 6 – 1. Gwenno Lloyd, Ysgol y Fro, 2. Poppy Lee, Ysgol y Fro, 3. Zyian Onoh, Ysgol

Mynydd-y-garreg. Ffotograffiaeth Bl. 1-6 – 1. Greta Wyn, Ysgol Llangynnwr, 2. Greta Wyn, Ysgol Llangynnwr. Technoleg Gwybodaeth Bl. 1-6 – 1. Morgan Harry, Ysgol Llangynnwr, 2. Brychan Thomas, Ysgol Llangynnwr, 3. Hollie Davies, Ysgol Llangynnwr.

CERDD (agored)

Unawd Bl. 1 a 2 neu iau – Beca Llwyd; Unawd Bl. 3 a 4 – Greta Ann Jones; Unawd Bl. 5 a 6 – Gwenno Roberts; Unawd Alaw Werin dan 19 – Awel Grug Lewis; Unawd Bl. 7, 8 a 9 – Awel Grug Lewis; Unawd piano/offerynnol dan 19 – Awel Grug Lewis; Unawd sioe gerdd dan 30 oed – Gwenllian Jones; Emyn dros 50 oed – Robert Jenkins; Her unawd – Gwyn Morris; Parti / Côr – Seingar; Deuawd – Robert Jenkins a Gwyn Morris; Cenwch i'm yr Hen Ganiadau – Gwyn Morris.

LLEFARU (agored)

Llefaru Bl. 1 a 2 neu iau – Tryfan Samuel Phillips; Llefaru Bl. 3 a 4 – Greta Ann Jones; Llefaru Bl. 5 a 6 – Gwenno Roberts; Llefaru Bl. 7, 8 a 9 – Awel Grug Lewis; Darllen darn o'r Ysgrythur ar y pryd, dros 19 – Maria Evans; Her Adroddiad – Maria Evans.

LLENYDDIAETH

Y Gadair – Eluned Mai Giles, Caerfyrddin; Tlws yr Ifanc – Tesni Peers, Rhosllannerchrugog; Englyn – Elen Edwards, Caernarfon; Gorffen Limrig – Alan Iwi, Didcot, Rhydychen. Blwyddyn 10 - 11 llunio blog - 1. Lois Thomas, Ysgol Bro Teifi, 2. 1. Lois Edmonds, Ysgol Bro Teifi, 3. Sophie Reid, Ysgol Bro Teifi. Bl. 1-6 ysgolion cynradd lleol – Bl. 4, 1. Farah Bowen, Ysgol Llangynnwr, 2. Tomos Moses, Ysgol Llangynnwr, 3. Mila Williams, Ysgol Llangynnwr. Bl. 1, 1. Florence, Ysgol Llangynnwr, 2. Amber, Ysgol Llangynnwr, 3. Cydradd – Spencer, Ysgol Llangynnwr a Greta, Ysgol Llangynnwr.

* * *

Llun Bardd y Gadair 2023

Mae'r llun yn dangos Bardd y Gadair 2023, sef Eluned Mai Giles, Caerfyrddin a'r beirniad llên y Prifardd Aneirin Karadog, gydag aelodau'r Orsedd.

Lluniau eraill

Rhai o enillwyr yr adran leol yn yr eisteddfod.

Trefn mewn lluniau – o'r chwith i'r dde

Unawd Bl. 1 a 2 – 3. Cydradd Hafanna Bennett Havard ac Anna Williams, 2. Greta Wyn, 1. Glesni Roberts

Llefaru Bl. 1 a 2 – 1. Glesni Roberts, 2. Ilan-Rhun Phillips 3. Cydradd, Hafanna Bennett Havard ac Ela Millard

Unawd Bl. 3 a 4 – 1. Gwenllian Francis Jones, 2. Alys Evans a 3. Alaw Evans

Llefaru Bl. 3 a 4 – 1. Alys Evans, 2. Tomos Wyn Cooper, 3. Cadi Morgans

Unawd Bl. 5 a 6 – 1. Beca Morris, 2. Ioan Jones, 3. Isabel Hughes;

Llefaru Bl. 5 a 6 – 3. Ioan Jones, 2. Caleb Jones, 1. Gwenno Roberts

Unawd offeryn cerdd ysgolion cynradd – 1. Cadi Morgan, 2. Beca Morris, 3. Gruff Williams

Deuawd Bl. 6 ac iau – 1. Enfys ac Isabel

Cynrychiolwyr Ysgol Llangynnwr yn derbyn y cwpan her i'r ysgol leol uchaf ei marciau oddi wrth Menna James, llywydd y prynhawn.

Tomos Morgan yn derbyn Ysgoloriaeth Dr. Ron a Mrs. Betty Rees i'r cystadleuydd gorau yn lleol o dan 16 oed am lefaru wrth Menna James, llywydd y prynhawn

Llywyddion yr hwyr, Owen a Lynda Jones, Llygad yr Efail





